# Adroddiad Arolygu

**Cywion Cile**

**Cywion Cile**
**Ysgol Gymunedol Ffwrnes**
**Llanelli**
**SA15 4DD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

08/02/2022

***Llywodraeth Cymru* © Hawlfraint y Goron 2022.**
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chywion Cile

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Unigolyn cofrestredig | Michelle Howell |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Tachwedd 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus iawn yn y ffordd maent yn cyfathrebu â'i gilydd a chyda'r staff gofal, ac yn datblygu cydberthnasau cryf, gan eu bod yn gwybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt. Maent wrth eu bodd yn mynegi eu mwynhad yn yr hyn a wnânt. Mae'r plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwneud iddynt deimlo'n dda ac yn dangos sgiliau annibyniaeth da.

Mae’r staff gofal yn deall ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant personol. Mae'r staff gofal yn annog y plant i fynegi eu hunain yn dda iawn ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol iawn gyda'r plant. Maent yn cynllunio ac yn asesu'n fanwl er mwyn diwallu anghenion a diddordebau addysgol y plant.

Mae gan y bobl sy'n cynnal y feithrinfa fesurau effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw’r plant yn ddiogel. Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da y tu mewn a’r tu allan. Maent yn darparu ystod dda o adnoddau sy'n ysgogi plant o bob oedran a chyfnod datblygiad er mwyn meithrin sgiliau datblygiadol y plentyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn bodloni safonau cenedlaethol. Mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol. Mae gweithdrefnau sefydlu cadarn ar waith ar gyfer staff gofal. Mae partneriaethau yn gadarnhaol.

## Llesiant

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus iawn ac mae eu hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ynglŷn â pha liw plât y maent am gael eu byrbryd arno a lle yr hoffent chwarae. Mae’r plant yn lleisio eu barn yn hyderus wrth ddiwallu eu hanghenion personol, megis mynd i'r toiled a sychu eu trwynau. Maent yn teimlo’n gyfforddus ac yn hyderus i ddweud wrth staff gofal pan nad ydynt am ymuno yn y canu ac mae hyn yn cael ei barchu.

Mae’r plant wrth eu bodd yn mynegi eu mwynhad yn yr hyn y maent yn ei wneud. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn i'r feithrinfa. Mae'r plant yn naturiol yn rhoi eu breichiau allan i gofleidio'r staff gofal pan fyddant yn cael eu cyfarch. Mae'r plant yn ein cynnwys yn hyderus yn eu chwarae yn ogystal â rhannu eu pryderon ynglŷn â phwy oedd yn eu casglu heddiw a faint o'r gloch y maent yn dod. Mae plant ifanc yn mynegi eu mwynhad wrth ddewis chwarae yn ardal y gegin a dewis gwahanol fwydydd i'w coginio.

Mae'r plant yn sensitif i anghenion a theimladau eraill. Maen nhw'n cynnig rhannu cadair gyda phlentyn arall sydd wedi cynhyrfu ychydig, ac yn lapio eu breichiau o amgylch ei gilydd wrth eistedd gyda'i gilydd.  Mae'r plant yn gwrtais iawn, ac yn ymateb gydag “ie os gwelwch yn dda” a “dim diolch” pan gynigir byrbryd iddynt neu pan ofynnir iddynt ymuno yn y canu.

Mae'r plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan arwain at gyffro a theimlad da o gyflawniad. Er enghraifft, roedd y plant yn chwarae â hidlwyr a glanhawyr pibellau i annog sgiliau echddygol manwl i edafu drwy'r tyllau. Newidiodd y gweithgaredd yn gyflym wrth i’r  plant eu defnyddio fel hetiau ac yna fel drymiau a symbalau, tra roedd y plant yn bloeddio mewn cyffro wrth ddarganfod rhywbeth newydd ar gyfer yr offer. Mae'r plant yn cymryd rhan yn eu chwarae am amser rhesymol, gan ganu iddynt eu hunain wrth ganolbwyntio ar y dasg. Mae'r plant yn awyddus ac yn falch o ddangos yr hyn y maent yn ei wneud i’r staff gofal.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth da trwy wneud pethau drostynt eu hunain, tra bod rhai hefyd yn rhoi cynnig arni gyda chefnogaeth. Er enghraifft, cau sipiau eu cotiau. Mae llawer o’r plant yn defnyddio cyllell yn llwyddiannus i daenu’r menyn ar eu tost. Mae'r plant yn helpu i symud y cadeiriau yn ôl at y byrddau ar ôl amser cylch, yn barod ar gyfer y byrbryd. Mae’r plant yn adnabod llythyren gyntaf eu henwau yn hyderus amser cylch. Maent yn casglu tedis didoli bach ac yn eu cyfrif yn ôl grwpiau lliw, gan enwi pob lliw yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r plant yn defnyddio'r toiled ac yn ymolchi eu dwylo'n annibynnol.

## Gofal a Datblygiad

Mae’r staff gofal yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i sicrhau iechyd a diogelwch gan amlaf. Maent yn sicrhau bod pob plentyn wedi ymolchi ei ddwylo cyn bwyta ac maent yn gwisgo cyfarpar diogelu personol wrth gynorthwyo'r plant amser bwyd. Mae'r staff gofal yn dilyn y gweithdrefnau cywir ar gyfer newid cewynnau, gan sicrhau bod arwynebau'n lân, defnyddio cyfarpar diogelu personol ac ymolchi eu dwylo ar ôl newid pob cewyn. Cedwir bocsys bwyd y plant ar fwrdd yn y cyntedd, wrth ymyl y drws allanol. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi trefnu iddynt gael eu storio mewn ystafell oer, dywyll i ffwrdd o olau uniongyrchol yr haul. Mae gan bron bob aelod o staff y lleoliad dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu, ac mae rhai yn aros i fynychu cyrsiau. Mae'r staff gofal yn dangos cryn ddealltwriaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant wrth drafod senarios posibl. Mae'r staff gofal yn deall ac yn gweithredu gweithdrefnau diogelwch ac mae gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau'n ofalus cyn i'r plant fynd allan i'r ardal awyr agored. Maent yn cadw cofnodion o ddamweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau perthnasol ac maent wedi'u llofnodi'n briodol.

Mae'r staff gofal yn wirioneddol ofalgar tuag at y plant. Maent yn canmol y plant am fod yn gwrtais ac yn diolch i’r plant sy’n holi am blentyn arall a oedd wedi cynhyrfu *“diolch am feddwl amdano, mae hynny'n garedig iawn”* Maent yn gosod esiampl dda ac yn fodelau rôl da. Maent yn annog y plant i ddweud “os gwelwch yn dda” a “diolch” pan fyddant yn derbyn bwyd ac adnoddau, ac yn canmol y plant pan fyddant yn ymateb yn dda. Mae’r staff gofal yn dangos sensitifrwydd tuag at y plant pan fyddant wedi cael eu brifo, gan gynnig maldod a chysur. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd i'r plant. Maent yn tawelu meddwl y plant sy'n newydd i'r lleoliad, gan gynnig cymorth un i un.

Mae’r staff gofal yn hyrwyddo iaith gartref y plant yn llawn o ddydd i ddydd. Maent yn annog plant i fynegi eu hunain yn dda ac yn eu holi am eu hoff weithgaredd chwarae. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth a gwybodaeth gadarn o ddatblygiad ac anghenion y plant ac yn adnabod eu plant yn arbennig o dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau ei fod yn gwbl gynhwysol, maent yn cefnogi'r holl staff gofal i dderbyn hyfforddiant ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o blant ag anghenion ychwanegol. Darperir gwaith cynllunio ac asesu manwl i ddiwallu anghenion a diddordebau'r plant, a gosodir targedau unigol ar gyfer datblygiad plant unigol o ganlyniad.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant y plant. Mae system ddiogelwch ar waith ar y drysau allanol i atal mynediad cyhoeddus ac mae ymwelwyr yn llofnodi wrth fynd i mewn trwy brif fynedfa'r ysgol yn ogystal ag yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal asesiadau risg cyffredinol a chynhwysfawr ac yn eu dogfennu a'u hadolygu'n rheolaidd. Maent hefyd yn cofnodi ac yn diweddaru asesiadau risg tân a chofnodion cynnal a chadw.

Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn hygyrch ac yn lân, gan ddarparu'r preifatrwydd a'r urddas priodol i'r plant. Mae'r dodrefn a'r offer yn addas ar gyfer pob oedran a chyfnod datblygiad ac mae digon o le i blant gymdeithasu a symud o gwmpas yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn trefnu'r adnoddau a'r teganau yn effeithiol. Maent yn darparu adnoddau ysgogol ar gyfer pob oedran a chyfnod datblygiad er mwyn hyrwyddo a meithrin sgiliau personol a chymdeithasol, sgiliau iaith a sgiliau mathemategol trwy chwarae synhwyraidd, chwarae dychmygus a chreadigol, gweithgareddau byd bach, chwarae corfforol a chwarae rôl. Mae'r ardal y tu allan yn cynnwys ardal fach, bwrpasol ar gyfer plant y lleoliad, yn ogystal â defnydd o iard yr ysgol, campfa a choetir. Fodd bynnag, mae mynediad wedi'i gyfyngu i'r adegau pan nad yw'n cael ei defnyddio gan blant ysgol. Mae gwaith y plant yn cael ei ddathlu o fewn y lleoliad drwy'r arddangosfeydd lliwgar ac amrywiol sy'n seiliedig ar themâu tymhorol a themâu sy'n hybu iaith a llythrennedd. Mae adnoddau ac offer yn cael eu labelu ar uchder y plant i'w galluogi i ddewis wrth chwarae'n rhydd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y bobl sy'n cynnal y lleoliad weledigaeth eithriadol ar gyfer y feithrinfa ac maent yn ei chyfleu'n effeithiol i'w staff gofal gan greu ethos cadarnhaol iawn. Maent yn arwain mewn modd sy'n sicrhau bod y feithrinfa yn cyflawni safonau eithriadol o uchel ac yn darparu gofal a chyfleoedd datblygu o ansawdd i'r plant. Mae ganddynt yr holl ddogfennau a chofnodion angenrheidiol ar gyfer rhedeg y lleoliad, y maent yn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Ar y cyfan, mae'r ddogfennaeth yn drylwyr ac yn gynhwysfawr er nad yw'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'n gywir y gwasanaeth a gynigiwyd ers y pandemig. Gwnaeth y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddiweddaru'r ddogfen yn ystod yr arolygiad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthuso ac yn myfyrio ar y feithrinfa a'u harferion yn gyson. Maent yn hawdd siarad â nhw ac yn agored i syniadau ar gyfer gwella. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal adolygiad ansawdd gofal bob blwyddyn sy'n ystyried barn rhieni. Er nad ydynt yn cynnwys barn y plant, mae’r plant yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio a rhoi eu barn a’u safbwyntiau am yr hyn maent ei eisiau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cefnogi staff gofal yn arbennig o dda. Maent yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd ac yn cynllunio ar gyfer datblygiad staff. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo rhai staff i astudio ar gyfer cymwysterau gofal plant uwch. Maent hefyd yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd i gyfnewid gwybodaeth a syniadau. Dywedodd yr holl staff gofal y siaradwyd â hwy eu bod yn hapus iawn yn gweithio yma ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan reolwyr sy'n hawdd mynd atynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn

Mae gan y bobl sy'n cynnal y lleoliad bartneriaethau rhagorol â’r rhieni.  Maent yn hysbysu rhieni am gynnydd eu plant ar lafar, trwy ddogfennau olrhain a thrwy system adrodd electronig. Mae hyn yn eu galluogi hwy a staff gofal i gyfathrebu'n hawdd â rhieni o ddydd i ddydd a rhoi gwybod iddynt am yr hyn y mae eu plentyn wedi bod yn ei wneud mewn amser real. Mae'r holl rieni y siaradwyd â hwy yn hynod hapus yn y lleoliad a dywedasant wrthym na allant ganmol y feithrinfa ddigon.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Cynnwys barn plant yn yr adolygiad ansawdd gofal.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 07/03/2022'